



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Awst/Medi 12
Rhifyn 189

Oedfaon y Sul

Mis Awst

5 Awst - Bore a Hwyr: Uno yn Salem: Y Parch Ronald Williams

12 Awst - Bore a Hwyr: Uno yn Salem: Y Parch Ronald Williams

19 Awst - Bore a Hwyr: Y Parch William Davies, Bala

26 Awst - Bore a Hwyr: Y Parch Emlyn Richards, Cemaes

Mis Medi

2 Medi - Bore: Gweinidog. Gweinyddir y Cymun
Hwyr: Uno yn Salem

9 Medi - Bore - Y Parch Trefor Jones
Hwyr - Y Parch Robert Capon

16 Medi - Bore a Hwyr: Gweinidog - Sul y Cyngor Eglwysi yn Seilo

23 Medi - Bore a Hwyr: Y Parch Ioan Wyn Griffith, Chwilog

30 Medi - Bore a Hwyr: Y Parch Iwan Llywelyn Jones, Porthmadog

Digwyddiadau Mis Medi

Nos Lun 10 Mai (7pm) : **Cymdeithas Chwiorydd Seilo**

Beth ddaw allan o'r Bocs? – Vince Lloyd Jones

Nos Fawrth 11 Medi (7pm): **Cyfarfod lansio Gwefan yr Henaduriaeth** ym
Merea Newydd, Bangor efo Cwmni Delwedd. Croeso i bawb

Nos Iau 13 Medi (6.30 - 7.30pm): **Derbyn nwyddau** yn y Theatr ar gyfer y
bwrdd gwerthu

Bore Gwener 14 Medi (9.30 – 12pm) **Stondin Gacennau ar y Maes** - yr elw at
Gymdeithas Meningitis

Dydd Mawrth 18 Medi (2 pm): **Darlith yn y Coleg Gwyn, Bangor** gan y
Dr Eryn Mant-White, Aberystwyth ar 'y Troi Allan 1662'. Croeso i bawb.

Taro Mewn - bob bore Mawrth yn Salem (Ailgychwyn 11 Medi) (10 -11am)
Y Gell Weddi - bob dydd Iau (Ailgychwyn 13 Medi)

Am Eiliad

Dyma ni bellach yn nhymor y pencampwriaethau mawr, nid yn unig ym myd chwaeaeon ond ym myd amaethyddiaeth a diwylliant ac addysg hefyd. Gyda phencampwriaeth Wimbledon a Sioe Llanelwedd y tu cefn i ni, y Gemau Olympaidd yn eu hanterth a'r Eisteddfod Genedlaethol ar y trothwy, does dim prinder cynnwrf ar y sgrin deledu a'r cyfan yn wledd i'r llygaid. Cynhaliwyd seremoniau graddio mewn Prifysgolion ledled y wlad a chyn diwedd y mis bydd disgyblion wedi derbyn canlyniadau arholiadau Tgau a Lefel A.

Ond dowch yn ôl hefo mi i Wimbledon 2012 ac i'r pnaawn Sul olaf pryd cynhaliwyd yr ornest fythgofiadwy honno rhwng Andy Murray a Roger Federer ar y Cwrt Canol. Fred Perry oedd y Prydeiniwr olaf i ennill Cwpan y Meibion a hynny yn 1936, a dwy flynedd yn ddiweddarach cyrhaeddodd Henry Wilfred Austin y rownd derfynnol. Felly saith deg a phedair o flynyddoedd yn ddiweddarach roedd y disgwyliadau'n fawr a'r pwysau'n drwm ar yr Albanwr pan gerddodd i mewn i'r cwrt canol i wynebu'r cawr o'r Swisdir. Y wobwr i'r buddugol yn 1936 oedd £10 a thei y clwb. Y wobwr yn 2012 oedd £2.15 miliwn!! Un peth arall sy'n wahanol heddiw i'r hyn ydoedd dri chwarter canrif yn ôl ydi nad dŵr neu sudd oren oedd y cystadleuwyr yn yfed rhwng gemau a setiau yn 1936 ond rhywbeth llawer iawn cryfach!

Pwy oedd llinyn mesur Andy Murray tra roedd yn paratoi ar gyfer y ffeinal? Nid Fred Perry, yn sicr, ond yn hytrach ei wrthwynebydd, Roger Federer, y chwaraewr tennis gora a welodd y byd erioed; a rhwng y 'semi' a'r 'ffeinal' yn sicr bu Andy Murray yn ceisio canfod gwendidau Roger Federer, oherwydd ei nôd oedd chwarae'n well nag o ac ennill y bencampwriaeth.

A llinyn mesur y Cristion? Iesu Grist ei hun. Ein nôd bob amser yw bod cyn debyced iddo fo ag y medrwn ni fod. Cafodd Pedr ac Andreas, Iago ac Ioan a'r gweddill o'r disgyblion eu galw ganddo nid yn unig i'w

ddilyn, ond hefyd i gael eu mowldio ar ei ddelw. Hwy wedi'r cyfan fyddai'n adeiladu ar y sylfaen a osodwyd gan eu Meistr. A'n gwaith ninnau yw parhau'r gwaith o sefydlu Teyrnas Dduw yn y byd.

Mae llwyddo yn golygu llafur caled a rhaid wrth ymdrech cyson i gyrraedd y brig. Law yn llaw ag ymdrech daw siomiant bron yn ddieithriad, ac felly y bu hi yn hanes Andy Murray dair wythnos yn ôl. Collodd sawl cyfle yn yr ail set a chanlyniad hynny fu iddo golli'r gêm. Ond colli yn dilyn ymdrech aruthrol i lwyddo, a doedd dim cywilydd yn hynny. Rydym ninnau'n aml yn methu ar y daith ac yn bobl siomedig iawn o'r herwydd. Methu ddaru Pedr hefyd, a hynny fwy nag unwaith, ond trwy gymorth ei Feistr medrodd ailafael ynddi, dysgu oddi wrth ei gamgymeriadau ac adeiladu arnynt. Erbyn hyn mae golygon Andy Murray ar lwyddo yn y Gemau Olympaidd ac yn sicr daw sawl cyfle iddo eto i ennill pencampwriaethau. Ei eiriau wedi iddo golli yn erbyn Roger Federer oedd – "Wel, I'm getting closer..." Felly ninnau gobeithio. Yr hyn sy'n allweddol ym mhob llwyddiant a methiant, llawenydd a siomiant yw **ymdrech a dyfalbarhad**.

Cofiwn eiriau awdur y Llythyr at yr Hebreaid wrth iddo gyfeiro at nifer o fawrion yr Hen Destament:

"Mewn ffydd y bu farw'r rhain oll, heb fod wedi derbyn yr hyn a addawyd, ond wedi ei weld o bell..."

Gwŷr a gwragedd wedi ymdrechu a dyfalbarau i geisio cyrraedd y nôd oeddynt oll.

Colli i'r gora ac wedi gwneud ei ora ddaru Andy Murray yn y ffeinal dair wythnos yn ôl. Gadewch i ninnau, yn nerth Duw, wneud ein gora i ddilyn esiampl Iesu Grist.

Gwenda Richards

Coffâd

Mrs Ada Roberts, 9 Stryd John Llwyd

Cafodd **Ada Roberts** ei magu yng Nghaernarfon ac yno y bu hi ar hyd ei hoes. Profodd droedigaeth yn ifanc a bu hi a'i

phriod yn weithgar iawn yn yr eglwys gan roddi pwyslais ar waith cenhadol. Meddai ar ffydd gadarn a bu'n aelod ffyddlon yn Engedi ac yn Seilo. Collodd ei phriod yn ifanc a chofiwn amdani yn gweithio yn siop Roberts & Owen yng Nghaernarfon. Cydymdeimlwn ag Adrian ac Audrey a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam a nain hoff.

Mr Norman Davies, 18 Stryd yr Eglwys

Ganed **Norman Davies** yng Nghaernarfon yn un o bump o blant. Cofiwn yn annwyl amdano fel perchennog siop flodau a llysiâu Lodging Hall yng Nghaernarfon. Roedd yn ddyn busnes o'i gorun i'w sawdl ac yn uchel iawn ei barch yn y dref. Nid oedd ei well am osod blodau. Roedd ganddo feddwl y byd o'i deulu a chydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'i briod Gwladys, ei blant Sharon a Haydn, ei frawd Jack a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Mrs Wendy Morris, 9 Stryd Fawr

Bu farw **Wendy Morris** yng nghwmni ei theulu yn East Grinstead, Swydd Sussex, a chynhaliwyd ei handladd yno fore dydd Iau 19 Gorffennaf. Fe'i ganed yng Nghaernarfon yn un o bedwar o blant. Cofiwn amdani hi a'i phriod, Eurwyn, yn cadw Siop Eryri yn Stryd Llyn ac roedd wrth ei bodd yn cyflawni ei swydd fel Maeres y dref pan etholwyd Eurwyn yn Faer Caernarfon yn 1978. Eithriad fyddai iddi golli oedfa'r bore yn Seilo. Bu'n ffyddlon i'w theulu a'i ffrindiau a chydymdeimlwn â hwy yn eu colled. Cydymdeimlwn â'i merch Irene, Gwen ei chwaer, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Cynhelir oedfa goffa i Wendy yn Seilo ym mis Hydref.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â **Mrs Jano Jones**, 28 Maes Gwynedd wedi iddi golli ei chwaer yn ddiweddar, ac â **Mr Wyn Barton**, Angorfa, 36 Cae Gwyn, yn dilyn ei brofedigaeth o golli ei frawd.

Rydym yn meddwl am bawb sydd wedi colli anwyliaid ac yn dymuno nerth Duw iddynt yn eu colled a'u hiraeth.

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb a fu'n wael yn ystod y mis, gan ddymuno gwellhad buan iddynt oll. Mae **Mrs Alice Jones**, Trefal, 20 Bryn Rhos, Rhosbodruall, yn gwella yn Ysbyty Eryri wedi iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Da yw deall bod **Mr Gwynfor Roberts**, Caerlyr, 12 Ffordd Hampton, wedi dychwelyd adref ar ôl treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Felly hefyd **Mrs Derwena Jones**, Llwyn y Gân, Gerddi Menai.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i'r **Parchedig Dafydd Lloyd Hughes ac Ann** ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Dymunwn flynyddoedd dedwydd iddynt eto yng nghwmni ei gilydd.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i bobol ifanc yr eglwys ar eu llwyddiant yn ystod y misoedd diwethaf. Mae nifer wedi graddio ac eraill wedi gadael ysgol a choleg i ddilyn gyrfa mewn gwaith newydd. Dymunwn yn dda i bob un ohonynt.

Cais

Mae'r gweinidog yn awyddus i dderbyn **cyfeiriad ebost a rhif ffôn symudol** aelodau'r eglwys ac iddynt gael eu cadw mewn bas data. Os oes ganddoch gyfeiriad felly, ac os ydych yn fodlon iddynt gael eu defnyddio i gysylltu â chi, gofynnir yn garedig i chwi gysylltu â'r gweinidog ar abermenai@btinternet.com. Y bwriad yw defnyddio'r rhain i hwyluso'r modd o gysylltu ag aelodau.

Yr Ysgol Sul

O fis Medi ymlaen croesewir '**Mam a'i Phlentyn**' i'r ysgol Sul. Er byddai'n ddymunol gweld pawb yn y gwasaneth dechreuol yn y capel cyn mynd i'r ysgol Sul, mae croeso i famau neu dadau plant ifanc iawn fynd yn syth i'r Theatr .

Rydym angen athro/athrawes wrth gefn ar gyfer dosbarth ieuenctid yr Ysgol Sul. Ni

fydd disgwyl iddo/iddi fod yno bob Sul, dim ond ar yr adegau hynny pan na all yr athro sefydlog fod yno. Cysyllter naill ai â'r gweinidog (676435), neu â Mrs Ann Llywelyn Williams (674849).

Bydd yr ysgol Sul yn ailgychwyn ar ddydd Sul 9 Medi wedi gwyliau'r haf.

Theatr Seilo

Apelir am wirfoddolwyr i gynorthwyo i glirio'r llwyfan ayb pan fydd cynhyrchiad yn y Theatr. Cysyllter â Mr Merfyn Morgan (672708)

Apêl Guatemala

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at yr Apêl mewn unrhyw fodd. Rydym ar y ffordd i gyrraedd ein nôd yn Seilo o £6,500. Ond mae peth gwaith i'w wneud eto a'n bwriad yw cynnal 'Te Pyramid' i chwyddo'r gronfa. Y syniad yw bod aelod yn gwahodd pedwar i de bach pnawn ac yn gofyn am gyfraniad o £5 gan bob un, a bod y pedwar a wahoddwyd wedyn yn cynnal te bach ac yn gwahodd pedwar i'w cartref ac felly ymlaen. Mae'n ffordd weddol rwydd o godi arian ac ar yr un pryd yn weithred gymdeithasol bleserus. Er mwyn cael rhyw syniad o faint fydd yn barod i roddi cychwyn i'r ymdrech hon, gofynnir yn garedig i chwi gysylltu un ai â'r gweinidog (676435) neu â Mrs Jan Jones (672845)

Blodau'r Cysegr

Dyma'r chwirydd fydd yn gyfrifol am flodau yn y capel yn ystod Awst a Medi:

Awst: **Mrs. Gwen E. Davidson-Norrie** (19);

Mrs Eiddwen Roberts (26).

Medi: **Mrs Margaret Morris-Jones** a **Mrs Edwina Morris** (2); **Mrs Mary Land** (9); **Mrs Marian Parry Jones** (16); **Mrs Ceri Humphreys** (23); **Joan Massey** (30).

Taith y Gymdeithas Lenyddol

Am hanner awr wedi pump nos Lun 11^{ed} o Fehefin, cychwynnodd llond bws ohonom ar ein taith lenyddol o gwmpas Dyffryn Nantlle ac Eifionydd, ac er nad oedd hi'n noson braf o haf, ni fu raid i neb agor ei ambarel!

Yr amryddawn Bob Morris oedd ein tywysydd am y noson, a chawsom wledd o wybodaeth hanesyddol ganddo. Clywsom am gefndir diwylliannol a diwydiannol yr ardal, yn ymestyn dros y canrifoedd, o'r oesoedd cynnar i'r presennol, gydag ambell gyfeiriad at chwedl Macsen Wledig a'r Mabinogi. Gan fod 'meic' ar y bws, gallai siarad trwy gydol y daith, gan dynnu sylw at bob math o lefydd diddorol ar hyd y ffordd.

Aeth â ni o 'ddyffryn diwydiannol' Nantlle a bro enedigol R. Williams Parry tuag at lonyddwch Eifionydd. Arhosasom ychydig yng Nghapel y Beirdd, pryd adroddwyd inni linellau o farddoniaeth y ddau fardd, Robert ap Gwilym Ddu a Dewi Wyn o Eifion. Ymlaen wedyn i 'lonydd gorffenedig' y Lôn Goed, cyn gyrru ymlaen i Gapel Moreia, Llanystumdwy. Clywsom am gefndir yr adeilad arbennig yma, yn ogystal â hanes Lloyd George a merched y bleidlais, y 'suffragettes'.

Erbyn hyn roedd yn amser bwyd, a gorffennwyd y daith yng Ngwesty Glandwyfach, lle cawsom swper ardderchog a Mr Bob Morris yn cael seibiant haeddiannol! Diolchodd y llywydd, Dr Huw Roberts, i Mr Morris am noson arbennig iawn. Roedd pawb wedi dysgu cymaint ac yn rhyfeddu at ei wybodaeth eang ac wedi sylwi nad oedd ganddo nodiadau o gwbl!

Diolchwyd i'r Trysorydd, Mr David Elwyn Williams, ac i'r Ysgrifennydd, Mrs Gweno Parry, am drefnu'r noson mor ofalus. Roedd hi ac Emyr wedi methu â dod ac anfonwyd ein dymuniadau gorau atynt.

Beryl Roberts

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf i law erbyn Medi 20^{fed} os gwelwch yn dda.

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435

Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865

